# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 13 Medi 2016

Amser: 09.00 - 10.35

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3702

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mike Hedges AC (Cadeirydd)<br>Gareth Bennett AC<br>Janet Finch-Saunders AC<br>Neil McEvoy AC |
| Tystion: | Margaret Hutcheson, Deisebydd |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Kath Thomas (Dirprwy Glerc)<br>Jessica England (Dirprwy Glerc)<br>Jonathan Baxter (Ymchwilydd)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o drafodion y cyfarfod (PDF 165KB). Gweld fel HTML(177KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.  Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P-04-688 Gorsaf Bŵer Tata Steel ym Mhort Talbot

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf ac, o gofio bod y Pwyllgor Menter a Busnes ar y pryd wedi cyfarfod i drafod y materion a oedd yn ymwneud â TATA Steel ar ddiwedd y Pedwerydd Cynulliad, cytunodd i ofyn i Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau a yw'n bwriadu ystyried y mater ymhellach, ac os felly, a fyddai'n cynnwys y materion a godwyd gan y ddeiseb fel rhan o'r ystyriaeth honno.

### 2.2 P-05-698 Ailenwi Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd yn Maes Awyr Rhyngwladol y Dywysoges Diana

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at Faes Awyr Caerdydd, yn gofyn am eu barn ar y cynnig penodol, ac ynghylch a yw wedi ystyried yr egwyddor o enwi'r maes awyr ar ôl person blaenllaw o Gymru.

### 2.3 P-05-699 Cronfa Driniaeth i Gymru - rhaid dod â'r Loteri Cod Post ynghylch Iechyd i ben

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf ac, o gofio y gallai cyhoeddi cronfa driniaeth newydd fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan y ddeiseb, cytunodd i ofyn am farn y deisebydd cyn penderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau pellach.

### 2.4 P-05-700 Ariannu Cyllid Myfyrwyr ar gyfer Cyrsiau Ôl-raddedig

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf ac, o gofio y bydd y cynllun benthyciadau i fyfyrwyr ôl-raddedig ar waith ar gyfer y flwyddyn academaidd 2017-18, cytunodd i gau'r ddeiseb.

## 2.5 P-05-701 Gwelliannau i Ddiogelwch y Ffordd ar Hyd Cefnffordd yr A487 Rhwng Aberteifi ac Aberystwyth, i Gynnwys Mannau Pasio

Bu’r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb hon am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith:

- Yn gofyn am amserlen fwy penodol ar gyfer yr adolygiad y mae ei swyddogion yn ei gynnal ar hyn o bryd, ac yn gofyn bod y Pwyllgor yn cael gwybod cyn gynted ag y mae canlyniadau’r adolygiad ar gael; ac
- Gan ddwyn i’w sylw sylwadau penodol y deisebydd sy’n gofyn am astudiaeth o ddarpariaeth lonydd goddiweddyd diogel, ac yn gofyn a fyddai modd iddynt gael eu hystyried fel rhan o’r adolygiad.

## 2.6 P-05-702 Gofynion presenoldeb y Lwfans Cynhaliaeth Addysg ar gyfer Oedolion Ifanc sy’n Ofalwyr

Bu’r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb hon am y tro cyntaf a chytunodd i ofyn barn y deisebydd am yr ymateb cadarnhaol yn gyffredinol gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

## 2.7 P-05-703 Cynnig i ohirio’r Cyfyngiadau ar Bysgota yn Afonydd Cymru.

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i’w chau ac wrth wneud hynny, anfon sylwadau’r deisebydd at Gyfoeth Naturiol Cymru cyn ymgynghoriad arfaethedig y corff hwnnw ar fesurau rheoli stoc eogiaid sydd i gael ei gynnal ar ddiwedd 2016 / dechrau 2017.

## 2.8 P-05-706 Sicrhau bod ein Cynghorau yn cael eu Hadfywio drwy Gyflwyno Tymor Sefydlog

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf ac, o gofio bod y cynnig wedi’i ystyried a’i wrthod gan Lywodraeth Cymru, cytunodd i gau’r ddeiseb.

### 2.9 P-05-708 Gwneud Iechyd Meddwl yn Rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb hon am y tro cyntaf ac, o ystyried yr ymateb cadarnhaol gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, cytunodd i gau'r ddeiseb.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-04-683 Coed mewn Trefi

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y deisebydd a chytunodd i ysgrifennu at:

- Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig i ofyn os bydd canllawiau yn cael eu llunio ar y manteision y gall coed eu cynnig mewn trefi a dinasoedd ac ar wella brigdwf;
- Cyfoeth Naturiol Cymru i ofyn pa gefnogaeth y mae'n ei ddarparu ar gyfer plannu coed stryd unigol mewn trefi a dinasoedd.

### 3.2 P-05-691 Bargen Deg ar gyfer Ralïo mewn Coedwigoedd yng Nghymru

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig a sylwadau pellach gan y deisebydd, a chytunodd i ofyn i'r deisebydd a Chyfoeth Naturiol Cymru p'un a ydynt wedi llwyddo i ddod i gytundeb, ac ystyried camau pellach yng ngoleuni'r ymateb.

### 3.3 P-05-654 Gwrthwynebu'r Cynigion Presennol o ran Dynodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ar gyfer Llamhidyddion

Datganodd Janet Finch-Saunders y buddiant a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A: Mae hi'n hyrwyddwr y llamhidydd harbwr.

Bu'r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, ac o ystyried y wybodaeth a ddarparwyd gan  Ysgrifennydd y Cabinet cytunwyd y dylid cau'r ddeiseb.

### 3.4 P-04-547 Gwahardd Deunydd Pacio Polystyren ar gyfer Bwyd a Diod Cyflym

Bu'r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ac, yng ngoleuni ymateb Ysgrifennydd y Cabinet ac mai ychydig yn fwy y gallai'r Pwyllgor ei wneud i symud y mater ymlaen, cytunodd i gau'r ddeiseb.

### 3.5 P-04-516 Gwneud Gwyddor Gwleidyddiaeth yn rhan orfodol o Addysg

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ac, yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor blaenorol, cytunodd i gau'r ddeiseb.

### 3.6 P-04-637 Diogelu Dyfodol Cerddoriaeth Ieuenctid yng Nghymru

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth gan Gyd-bwyllgor Addysg Cymru ac, o gofio nad oedd dim pellach y gallent ei wneud i symud y mater ymlaen, cytunwyd i gau'r ddeiseb.

### 3.7 P-04-677 Mynediad Cyfartal i'r Iaith Gymraeg

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes a sylwadau pellach gan y deisebydd, a chytunodd i gau'r ddeiseb. Wrth wneud hynny, cytunodd hefyd i ofyn i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ystyried y ddeiseb yn ystod ei waith craffu arfaethedig ar waith Comisiynydd y Gymraeg a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes.

### 3.8 P-05-694 Amseroedd Ysgol Awr yn Hwyrach

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ynghyd â sylwadau pellach gan y deisebydd a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet i ofyn:

- a fydd hi'n ystyried rhoi canllawiau i awdurdodau lleol, fel yr awgrymwyd gan y deisebydd; ac
- a yw hwn yn faes lle y mae angen rhagor o waith ymchwil, ac a fyddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi ymchwil o'r fath.

### 3.9 P-05-695 Cyflwyno Addysg Iechyd Meddwl Orfodol mewn Ysgolion Uwchradd

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon ochr yn ochr ag eitem agenda 2.9 (P-05-708 i Wneud Iechyd Meddwl yn Rhan o'r Cwricwlwm) a chytunodd i gau'r ddeiseb.

### 3.10 P-04-553 Ymchwiliad llawn ac annibynnol i'r risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â thechnolegau diwifr a ffonau symudol yng Nghymru, gan gynnwys yr holl ysgolion

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Simon Mann, Pennaeth Adran Dosimetreg Ymbelydredd y Ganolfan Peryglon Ymbelydredd, Cemegolion a Pheryglon Amgylcheddol ynghyd â sylwadau pellach gan y deisebydd, a chytunodd i gau'r ddeiseb.

### 3.11 P-05-693 Rhowch y Brechlyn Llid yr Ymennydd B i Bob Plentyn yng Nghymru am ddim

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a chytunodd i ofyn am farn y deisebydd cyn penderfynu a ddylid gofyn am ddadl ar y mater yn y Cyfarfod Llawn.

### 3.12 P-05-697 45,000 o Resymau Pam bod ar Gymru Angen Strategaeth ar Ddementia

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a chytunodd i ysgrifennu at y deisebwyr, a oedd wedi'u gwahodd i fod yn rhan o grŵp gorchwyl a gorffen a oedd i gael ei sefydlu i ddatblygu strategaeth

dementia, i ofyn iddynt annog y rhai sydd wedi llofnodi'r ddeiseb i roi eu barn ar y strategaeth pan gaiff ymgynghoriad ei chynnal arni.

### 3.13 P-04-564 Adfer Gwlâu i Gleifion, Gwasanaeth Mân Anafiadau ac Uned Pelydr-X i Ysbyty Coffa Ffestiniog

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ynghyd â sylwadau pellach gan y deisebydd ac, fel y gofynnwyd gan y deisebwyr, cytunodd i gadw'r ddeiseb ar agor ac i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet a'r deisebwyr eto yn ddiweddarach yn yr hydref i gael adroddiad ar gynnydd.

### 3.14 P-04-667 Cylchfan ar gyfer Cyffordd yr A477/A4075

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith a chytunodd i ysgrifennu ato, yn mynegi siom ynghylch yr oedi wrth symud ymlaen â'r archwiliad diogelwch ffyrdd cam 4, ac yn gofyn iddo am amserlen fwy pendant.

### 3.15 P-05-689 Gwelliannau i'r Ddarpariaeth Reilffyrdd yng Nghydweli Sir Gaerfyrddin

Bu'r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ac, o ystyried y wybodaeth ddefnyddiol a gafwyd yn yr ymateb, cytunwyd y dylid cau'r ddeiseb.

### 3.16 P-04-686 Dylid Gosod System Goleuadau Traffig yng Nghylchfan Cross Hands

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith a chytunodd i ofyn am farn y deisebydd cyn penderfynu sut i weithredu ar y ddeiseb.

### 3.17 P-05-690 Arwynebu Ffordd A40 Rhaglan - Y Fenni

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ynghyd â sylwadau gan Nick Ramsay AC a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet i gael eglurhad ynghylch:

- Cynlluniau i godi rhwystr sŵn ochr yn ochr â rhan o'r A40;
- A yw'n dal yn fwriad gan Lywodraeth Cymru i roi wyneb newydd ar yr adran hon o'r A40, fel y nodwyd yn y Cynllun Gweithredu ar Sŵn 2013-2018.

### 3.18 P-04-672 Dod â defnydd o'r Gymraeg i ben

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan y deisebydd, a chan iddynt deimlo na allent wneud rhagor i fynd â'r ddeiseb yn ei blaen, cytunwyd i gau'r ddeiseb.

## 4 P-04-668 Cefnogi Sgrinio Blynyddol ar gyfer Canser yr Ofari (CA125)

Atebodd y deisebydd gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

Nododd y Cadeirydd y trefnwyd i'r Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 27 Medi, a chytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu ati i ofyn am ragor o wybodaeth am y gost a amcangyfrifir ar gyfer cyflwyno sgrinio ar gyfer canser yr ofari yng Nghymru gan ddefnyddio prawf gwaed CA125.